Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

21 Gorffennaf 2017
10:00am – 1:00pm
Ystafell y Cyngor

Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyhoeddus

Pwrpas yr adroddiad / papur:

Cyflwyno Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyhoeddus i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, gan annog sylwadau a chwestiynau ar y cynnwys.

Crynodeb o'r adroddiad / papur:

Mae gan y Llyfrgell ddyletswydd, yng nghyd-destun ei Siarter i 'ymgynghori' (Statud 6) a chynnal trefniadau a fyddai'n galluogi'r sefydliad i ymgynghori â phobl sydd â diddordeb yng ngwaith y Llyfrgell a hynny er mwyn derbyn cyngor a chefnogaeth ganddynt: dylai'r trefniadau gael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol Mae'r Strategaeth yn gosod allan yr egwyddorion hynny a fydd yn sail i'r ffordd y byddwn yn ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn cyflawni un o'n prif werthoedd, sef darparu gwasanaeth rhagorol i'n holl ddefnyddwyr ar sail eu diddordebau a'u hanghenion a sicrhau hefyd fod pobl yn gwybod am y gwasanaeth a ddarperir gennym nid yn unig yn ein hadeilad yn Aberystwyth ac ar-lein, ond hefyd drwy ein hymgysylltu a gwaith ymestyn.

Argymhellion:

Yr Ymddiriedolwyr i gymeradwyo'r Strategaeth.